# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 335

Ionawr 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## Pen Punt, Cynffon Ddimai?




Mae'n siŵr y dylem ni i gyd fod yn ddiolchgar fod ein Cyngor Sir o'r diwedd wedi mynd ati i roi wyneb newydd i'r ffordd sy'n arwain i bentref Penrhyn-coch ac ohono.

Roedd y ffordd mewn cyflwr arswydus o wael ers tro byd ac roedd yn amlwg na ellid gwneud y tro â mân atgyweirio y tro hwn. Roedd angen wyneb newydd, yn gyfan gwbl. A dyna a gafwyd.

Ond — yn enw pob rheswm — pam dechrau ar y gwaith yng nghanol y mis Rhagfyr oeraf ers can mlynedd, rhwng dau gyfnod o eira trwm, a phan oedd y tymheredd ar ei isaf yng nghof y rhan fwyaf ohonom?

Ar un olwg, roedd yr hyn a wnaeth y cwmni'n arwrol. Fe wnaed y rhan fwyaf o'r gwaith o fewn ychydig ddyddiau — yn aml ar ôl iddi nosi — ac o dan amgylchiadau anodd iawn. Mae'r rhai a fu wrthi'n brwydro yn erbyn yr elfennau yn haeddu ein diolch a'n cydymdeimlad.

Ond y gwaith terfynol yw'r maen prawf yn y pen draw, ac ar hyn o bryd mae hwnnw ymhell o fod yn dderbyniol. Ar ôl rhew caled yr wythnosau diwethaf, mae tyllau wedi ymddangos mewn sawl man ar hyd y ffordd, ac mae'r ymyl ganol yn anwastad, gyda'r uniad i'w weld yn glir yng nghanol y ffordd. Mae'r paentio i'w wneud eto, ac fe fydd hynny'n cuddio peth o'r anwastadrwydd, mae'n debyg. OND — ac mae'n ond go fawr — hyd yn oed cyn gorffen y gwaith fe fydd raid mynd ati i lenwi tyllau eto fyth.

Y cwestiwn mawr felly yw beth fydd safon y gwaith terfynol. Roedd yn ddiddorol clywed llefarydd o Gyngor Sir Caerdydd ar y radio'n ddiweddar yn sôn am y broses o lenwi tyllau yn dilyn cyfnod o rew. Mae'r Cyngor hwnnw wedi newid ei bolisi yn ddiweddar ac wedi penderfynu gwneud job iawn ohoni - nid jyst llenwi'r twll ond cymryd sgwaryn helaeth o'i gwmpas a selio'r gwaith yn ofalus. Er bod hynny'n fwy costus yn y lle cyntaf, meddai ef, roedd yn fwy cost effeithiol yn y pen draw, gan ei fod yn osgoi mynd yn ôl byth a beunydd i ailwneud y gwaith.

Pen punt a chynffon ddimai yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r agwedd ffwrdd â hi a gymerir at waith o bob math y dyddiau hyn.

Ac yn achos ffordd Penrhyn-coch, fe fydd raid mynd ati i atgyweirio ffordd newydd sbon, pan ellid yn hawdd fod wedi arbed hynny trwy wneud y gwaith ymhen mis neu ddau.

Mae nifer o gwestiynau y byddai'n dda cael atebion iddynt:

- Pwy roddodd ganiatâd i'r gwaith gael ei wneud ym mis Rhagfyr?
- Pam aethpwyd ymlaen â'r gwaith gan wybod y byddai'r rhew a'r eira, a'r graeanu cyson yn dadwneud y gwaith, hyd yn oed cyn ei gwblhau?
- Beth a wneir nawr i adfer y sefyllfa?
- A fydd y gwaith terfynol o'r safon orau a ninnau wedi disgwyl cyhyd am i'r gwaith gael ei wneud?

Bydd rhaid gwylio'r camau nesaf yn ofalus a gwerthfawrogir ymateb gan ddarllenwyr *Y Tincer.* Bydd rhaid hefyd pwyso am estyn y ffordd drwy'r pentref, a hefyd i gyfeiriad Bont-goch. ond nid yn y gaeaf os gwelwch yn dda.

Wrth i'r *Tincer* fynd i'r wasg, sylwyd bod y tyllau wedi'u llenwi. Amser a ddengys a fydd y tyllau'n ailymddangos. (*Golygydd*)



Seren, Sian a Gwennan Jenkins (gyda mam - Lynwen) o Garej Tŷ Mawr, yn canu am galennig.



# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 335 | Ionawr 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri
Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **CHWEFROR 3** a **CHWEFROR 4** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **CHWEFROR 17**

**IONAWR 21** Nos Wener Brethyn tri chartre' — Rhodri, Geraint a Matthew. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**IONAWR 23** Nos Sul Cyngerdd Nadolig Ysgol Theatr Maldwyn ym Morlan Aberystwyth am 7.30. Gohiriwyd y cyngerdd yma cyn y Nadolig oherwydd y tywydd drwg. Mynediad trwy raglen — ar werth wrth y drws ar y noson: £7 oedolion, £5

**IONAWR 29** Nos Sadwrn Cyngerdd gan Côr CF1 yn y Tabernacl, Machynlleth am 7.30. Mynediad: £10

**CHWEFROR 16** Nos Fercher Keith Morris, Aberystwyth yn sôn am ei gasgliad lluniau. Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

# EISTEDDFODAU'R URDD

**MAWRTH 16** Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Llwyn-yr-eos, Penparcau am 1.30

**MAWRTH 17** Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg o 9.15 ymlaen

**MAWRTH 17** Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Ddawns yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr am 12.30yp

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 4.00

**MAWRTH 26** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 30** Dydd Mercher Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 1y.p

**EBRILL 1** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Rhagfyr.**

**Gwobrau Arbennig Y Nadolig.**
£60 (Rnif 38) Mrs D M Stanleigh, Dolfawr, Cwmrheidol
£40 (Rhif143) Menna James, 60 Tregerddan, Bow Street

**Gwobrau Misol**
£25 (Rhif 198) Y Parchg Wyn Rh.Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 242) Menna Davies, 11 Maes Afallen, Bow Street.
£10 (Rhif 161) Huw O Jones, Pant-teg, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau Parti Plygain y Penrhyn yn dilyn Plygain Penrhyn-coch nos Iau yr 16eg o Ragfyr 2010. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street os am fod yn aelod.

Gwelir rhestr o Gyfeillion y Tincer yn http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer ar dâp - Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Llythyrau

**Annwyl Ddarllenydd,**
Rwy'n fyfyrwraig M.Phil ym Mhrifysgol Aberystwyth ac rwy'n astudio gwaith Angharad Price a gweithiau eraill sydd wedi ennill y Fedal Ryddiaith, gan ddadansoddi eu derbyniad a sut mae *O! tyn y gorchudd* wedi dod yn ffenomenon ac yn 'glasur' mor gyflym. Er mwyn casglu barn y darllenwyr, rwyf wedi creu holiadur. Felly, os ydych wedi darllen *O! tyn y gorchudd* ac yn fodlon rhannu eich sylwadau a'ch teimladau amdano, cysylltwch â mi. Mae derbyn barn y cyhoedd am y nofel hon yn hollbwysig ar gyfer fy nhraethawd ymchwil, felly fe fyddwn yn ddiolchgar iawn am bob cymorth gyda'r gwaith.

Cedwir eich holl fanylion yn gyfrinachol wedi i chi lenwi'r holiadur.
Er mwyn derbyn copi o'r holiadur, gallwch fy e-bostio — bmw7@aber.ac.uk
Croeso i chi fy ffonio hefyd, neu gyrrwch neges destun gyda'ch cyfeiriad ac fe wna i yrru'r holiadur i chi - 07799711988

Diolch yn fawr am eich cymorth ac edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan,

Bethan Williams

---

**Annwyl Olygydd,**
Ysgrifennaf atoch i ofyn am gymorth gyda llun diddorol yn fy meddiant. Roedd Thomas Williams, brawd fy nhaid, yn frodor o Benmachno ac yn gweithio fel teiliwr ym Mae Colwyn. Yn ystod y Rhyfel Mawr cymerwyd yn garcharor ym mrwydyr Cambrai yn Nhachwedd 1917 ac aethpwyd ac ef i gamp carcharorion yn Minden, Yr Almaen. Mae gennyf nifer o luniau a gymerwyd yn y camp â'r rhyfeddaf o'r rhain yw llun o 23 carcharor gyda'r capsiwn "Some jolly boys of Wales". Tom yw'r ail o'r dde yn y rhes gefn.

Anfonodd Tom y cerdyn yma ar Mai 18fed 1918 i fy mam, oedd yn 9 oed ar y pryd, ac mae'n amlwg fod o leiaf 22 cartref arall yng Nghymru wedi derbyn y cerdyn yma hefyd. Tybed a oedd gan un o'ch darllenwyr daid neu berthynas yn garcharor yng nghamp carcharorion Minden yn 1918? A ydych yn adnabod un o'r dynion yn y llun? Oes gan rhywun gopi o'r llun? Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael unrhyw wybodaeth.

Os ydych am gael mwy o hanes Tom yn y Rhyfel Mawr ewch i'r wefanhttp://blogs.caernarfonherald.co.uk/hywelroberts/

Diolch yn fawr,
Hywel Roberts
Rhedynog, Ffordd Bethel,
Caernarfon,
Gwynedd LL55 1HB
hywel.roberts@btinternet.com
01286 672757



---

### Côr Cymru

Llongyfarchiadau i Gôr ABC a'u harweinyddes Angharad Fychan, Trefeurig, am lwyddo i ddod drwodd i rownd gyn-derfynol Côr Cymru a gynhelir yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth Mawrth 4ydd-6ed. Mae pob cór sy'n cyrraedd y rownd gyn-derfynol yn derbyn gwobr o £300 a bydd enillwyr y pum categori (plant, ieuenctid. merched, meibion a chymysg) yn derbyn £1,500 ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y teitl Côr Cymru ar Ebrill 10fed. Gellir cael tocynnau drwy ffonio cwmni Rondo ar 029 2022 3456 Pob dymuniad da iddi hi a'r côr.

# 30 Mlynedd 'Nôl



*(O Dincer Ionawr 1981)*

Parti Nadolig Aelwyd Rhydypennau lle gwelir yr Aelodau wedi ymgynnull o gwmpas y gacen hardd iawn (gyda Mr Urdd o'i hamgylch i gyd) a wnaed gan Mrs Jones, Brynderwen, Dôl-y-bont, mam Sian Elin a welir ar dde eitha'r llun, a rhan o'i hwyneb wedi'i guddio! Llun: Bill Evans

### Dyfodol S4C

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd trwy Gymru i drafod yr ymgyrch 'Na i Doriadau - Ie i S4C Newydd' ac i gael gweld beth ellir ei wneud i achub y sianel. Bydd dau gyfarfod yng Ngheredigion - nos Iau, Ionawr 27 ym Morlan, Aberystwyth am 7.30 Siaradwyr: Ned Thomas, Rhodri Ap Dyfrig a Huw Lewis a nos Iau, 3ydd Chwefror yn Lolfa Theatr, Felin-fach am 7.00. Siaradwyr: Euros Lewis, Ifan Gruffydd a Bethan Williams. Beth am ddod i ddweud eich dweud?

---

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Y TINCER** ytincer@googlemail.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# PENRHYN-COCH

**Suliau Chwefror**
*Horeb*
Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php
**6** 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
**13** 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
**20** 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
**27** 10.30 Oedfa bregethu
I'w drefnu

*Salem*
**6** 2.00 Y Parchg Richard Lewis Cymundeb
**20** 10.00 Y Parchg J.E. Wynne Davies

### Eglwys Sant Ioan

Daeth cynulleidfa dda i wasanaeth noswyl y Nadolig er gwaetha'r tywydd oer. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ronald Williams, ac yn ei gynorthwyo 'roedd Mrs Lona Jones, a'r organydd oedd Mrs Eirwen Hughes. Cafwyd datganiad ar y delyn yn ystod y gwasanaeth gan Helen Naylor o Derby. Bu hefyd yn cymryd rhan fore dydd Nadolig ac yng Ngŵyl bore Sant Steffan. Roedd awyrgylch Nadoligaidd hyfryd yn y gwasanaethau. Diolch yn fawr iddi am ei phresenoldeb a'i pharodrwydd i gymryd rhan yn ystod ei gwyliau ym Mhen-y-garn.

### Urdd Gwragedd Sant Ioan, Penrhyn-coch

Braf oedd cael cwrdd unwaith eto ar ôl gorfod gohirio sawl digwyddiad oherwydd y tywydd gwael. Gŵr gwadd mis Ionawr oedd Mr Wil Griffiths, Comins-coch, a thestun ei ddarlith oedd 'Dodrefn a Llestri capel', yn ogystal â hanes capeli'r cymoedd sydd wedi darfod mwyach. Llwyddodd Mr Griffiths ddod a hiwmor i'r hanes er bod tristwch mawr o golli'r hen adeiladau hardd oedd yn bodoli. Mwynhawyd noswaith addysgiadol dros ben.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ioan a Ffion, Llety Llwyd, Tal-y-bont ar enedigaeth merch fach - Hedydd Mair Beechey, wyres i Sandra a Mansel Beechey, Y Felin a gor-wyres i Glenys a Henry Thomas, Cwmfelin. Fe'i ganwyd am 23.59 nos Fercher 16 Rhagfyr.

### Diolch

Dymuna Sioned a Matthew Martin ddiolch yn fawr iawn am y llu o gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

### Plygain 2010

Cynhaliwyd yr 21ain blygain yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn, nos Iau 16 Rhagfyr 2010 Llwyddwyd i'w chynnal cyn i'r eira mawr ddod dros nos! Gweinyddwyd gan Mrs Lona Jones a chafwyd eitemau gan blant Ysgol Penrhyn-coch (roedd yn dda eu gweld yn ól unwaith eto yn y blygain), Parti'r Penrhyn, Angharad Fychan, Cantorion Aberystwyth, Efan a Greg, Linda Griffiths, Daniel Huws a Cantre'r Gwaelod. Mwynhawyd cawl blasus ar ddiwedd y noson wedi ei baratoi gan Gantre'r Gwaelod . Yn y gwasanaeth gwnaethpwyd casliad o £114.79 at Nyrsus McMillan.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Connie Evans, Gwawrfryn a'r teulu ar farwolaeth Eddie ei gŵr yn ddiweddar;

hefyd â Mair Evans, Glanceulan, ar golli modryb o Dre'r-ddôl;

â Kevin a Janice Evans a'r teulu, 7 Maesyfelin, ar golli mam Janice o Aberteifi yn ddiweddar;

â John Ifor Jones, Maesyfelin, ar farwolaeth ei chwaer ym Mangor.

ac â Gareth Morris ar farwolaeth ei fam - Mrs Morfydd Morris, Eirianfa, fu farw yn Ysbyty Bron-glais ar Ionawr 9fed. Cynhelir gwasanaeth yn Horeb am 10.00 fore Mawrth 25 Ionawr ac i ddilyn yn Amlosgfa Treforus.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Anita Pugh, 9 Tan-y-Berth, ar ôl dod gartref o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth lawfeddygol.

Hefyd i Mrs Griffiths, Ger-y-Llan, Vic Bolt, Ger-y-Llan ac Owen Jac, ŵyr bach Sue a Mervyn Hughes a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Clwb Cinio Cymunedol, Penrhyn-coch

Dydd Mercher y 15fed o Ragfyr cafodd Clwb Cinio Cymunedol Penrhyn-coch ei ginio Nadolig. Cafwyd cinio blasus dros ben gyda phawb yn mwynhau wrth dynnu cracyrs ac yn y blaen. Yna daeth plant Ysgol Penrhyn-coch i'n diddori drwy ganu gwahanol garolau a phawb yn cael ymuno mewn i ganu. Prynhawn arbennig i ddathlu'r ŵyl. Diolchwyd i bawb gan Glyn Collins ac fe ddarllenwyd cwpwl o benillion gan Mairwen Jones i ategu'r diolchiadau am amser hapus ac am y gwaith sydd yn cael ei wneud i ddod a'r cinio i bawb yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 9 a 23 Chwefror. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Ennill cystadleuaeth Croesair

Llongyfarchiadau i Elenid Thomas, Nant Seilo, ar ennill cystadleuaeth croesair yng nghylchgrawn y *Western Mail* dros y Nadolig.



Cynhaliwyd priodas Richard Collins, mab Glyn a Norma Collins 35 Ger-y-llan a Jennifer Sewell, merch Bob a Sue Sewell, Wellington, Awstralia yn Somersby, New South Wales ar 16fed Hydref 2010. Yr offeiriad oedd y Tad Lawrence Christie a Louise, chwaer Richard oedd yr MC. Mae Richard a Jenny wedi ymgartrefu yn Sydney.



Ar Ddydd Mercher Ionawr 12fed yng Ngwesty Portmeirion priodwyd Sioned, merch y diweddar Eric a Gwenda Thomas, Gwelfor, Penyberth a Matthew Martin, mab Tony a Pauline Martin, Sbaen. Y forwyn briodas oedd Elisa (merch y par priod) a'r gwas oedd eu mab George.



Dathlu'r Nadolig yn Horeb, Penrhyn-coch
Er gwaetha'r tywydd gaeafol, mentrodd cynulleidfa deilwng iawn i Oedfa Nadolig Horeb, ar y 19eg o Ragfyr. Cawsom fendith o ddathlu Gŵyl y Geni yng nghwmni'r plant a'r bobl ifainc a braf oedd cael croesawu Siôn Corn i'n cyfarch ar ddiwedd yr oedfa. Paratowyd paned o de a mins pei i bawb cyn troi am adref. Yn y llun gwelir rhai o blant y Clwb Sul yng nghwmni Siôn Corn.



Carys a Carwyn Jones gyda Bethany Bonner-Rees, y tri o'r Ddôl Fach, Penrhyn-coch fu yn canu am galennig ym Mhenrhyn-coch.


**CIGYDD BOW STREET**

Eich cigydd lleol

Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**pennau craft and coffee shop**
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050

Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau


# GOGINAN

## Parseli

Eleni eto mae'n rhaid bod yn ddiolchgar i'r rhai wnaeth drefnu y parseli i'r henoed. Iris Richards, Brodawel a Mair Jones, Coedlan am siopa a Carol Jones, Is y Coed a Gareth Jones Coedlan am eu dosbarthu.

## Ocsiwn

Braf yw cael llongyfarch Cathryn Morgan a Phil, Brynawel, am drefnu Ocsiwn yn y Druid i godi pres i Ysgol Pen-llwyn. Bu rhaid gohirio y digwyddiad o fis Tachwedd i ddechrau Rhagfyr ond er hynny fe ddaeth rhieni a ffrindau yno ar y noswaith i gefnogi. Codwyd £590.00 i'r ysgol. Diolch am frwdfrydedd pobl fel Cathryn.

## Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd hapus i Kate Griffiths, Welsh Cottage, ar ei phen blwydd yn un ar hugain ar Ragfyr 21. Pob lwc iddi i'r dyfodol.

## Mam-gu eto

Llongyfarchiadau i Jane Jones, Hafan, Cwmbrwyno ar enedigaeth ei hŵyr bach, Ceulan Wyn, cyn y Nadolig.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Maldwyn ac Eirlys Davies, Brynmeillion, ar farwolaeth chwaer Maldwyn yng Nghapel Bangor ddechrau mis Rhagfyr.

Cydymdeimlwn gyda Lewis Johnston, Y Druid, ar farwolaeth ei fodryb, chwaer ei dad yn Llundain adeg y Nadolig.

## Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Pam Scarborough ar ddydd Calan, er ei bod wedi bod yn fregus ei iechyd ers tro, sydyn oedd ei marwolaeth. Symudodd Pam a'i gŵr Mel i'r ardal ddiwedd y saithdegau a mynd ati i ail adeiladu Bwthyn Pen-y-bont yn dŷ moethus ar gornel Cwmbrwyno. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mel ar ei golled.

## Llysgennad

Llongyfarchiadau i Rhodri ap Dafydd sydd wedi ei enwi fel un o 17 llysgennad mabolgampau yng Ngheredigion i helpu hybu, cyfranogi a hyrwyddo gwerthoedd y campau Olympaidd a Ffaraolympaidd yn Llundain 2012. Bydd y llysgenhadon ifanc yn hyrwyddo mabolgampau, byw yn iachus, (yn ogystal â Olympau Llundain). Trwy eu sgiliau a'u hunan hyder byddant, gyda lwc yn ysbrydoli ieuenctid o'r un oedran i gymryd rhan mewn adloniant corfforol. Y gobaith yw y bydd Rhodri trwy ei gyfraniad yn ysbrydoli pobl ifanc i rannu gwerthoedd Olympaidd o gyfeillgarwch, rhagoriaeth a pharch.




Rhodri ap Dafydd

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Brysiwch wella

Mae Hywel Ellis, Hywelfan, wedi treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Bron-glais ar ôl derbyn llawdriniaeth ychydig amser cyn y Nadolig. Mae yr ardal gyfan yn danfon eu cofion ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn i'w weld yn ôl adref ac yn para ymlaen i wella.

Treuliodd Trystan ,ŵyr bach John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, ei Nadolig cyntaf yn Ysbyty Plant Cymru Caerdydd ond mae adref erbyn hyn ac yn teimlo dipyn yn well.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i John ac Elizabeth ar enedigaeth wyres fach arall ar ddiwedd y flwyddyn, ganwyd Sara Erin i Eirian a Dylan, Tyncastell, Pontarfynach. Mae Elain Grug wrth ei bodd gyda ei chwaer a'i chefnder bach newydd. Mae Dolgamlyn wedi bod yn le prysur iawn yn ystod y mis olaf!

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Nancy a Dei Evans, Typoeth, ar farwolaeth brawd yng nghyfraith Nancy ger Cnwch-coch.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

Suliau Ionawr Madog
2.00
**6** Chwefror:
**13** Chwefror: Arwyn Pierce
**20** Chwefror: Bugail
**27** Chwefror: Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

### Pen blwyddi

Llongyfarchiadau i Kathleen Vincent, Arwelfa, Cefn-llwyd ar ddathlu pen blwydd arbennig ar ddydd San Steffan;

hefyd i Hannah Reid, Ysgubor Newydd, sydd yn dathlu ei phen blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar golli ei chwaer — Miss Doreen Jones, Bow Street gynt o Min-y-Ddôl, Llanddeiniol; roedd yn fodryb hefyd i Dai a Wendy Evans, Fronfraith; hefyd i Tracy Smith, Bwthyn, Cefn-llwyd ar golli ei thad — Mr Henry Stichland o Dôl-y-bont.

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Megan Brown ar y 19 o Ragfyr yn Ysbyty Wythenshaw, Manceinion. Roedd yn ferch i'r diweddar Thomas ac Elizabeth Davies, Tyncwm a chwaer i Tomi. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Ardwyn. Aeth ymlaen i gael ei hyfforddi yn nyrs yn Ysbyty Frenhinol Caerdydd ac yno y cyfarfu â'i gŵr Dr Glyn Brown o Aberdâr. Fe'u priodwyd yng Nghapel Dewi ym 1956 ac wedyn symud i ardal Manceinion. Roedd Megan yn fam i Mark, Janice a Helen ac yn fam-gu i Ross, Bryn, Thomas a Madelaine. Byddai'n ymweld yn aml â'r ardal yma ac yn edrych ymlaen at dderbyn y *Tincer*. Bu gwasanaeth angladdol yn eglwys Hale Barns ac yn dilyn yn amlosgfa Altringham. Estynnwn ein cydymdeimlad â Tomi Davies a'r teulu, Tyncwm.





LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

*Blodau i bob achlysur*
**Blodau'r Bedol**
*Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth .Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur*
**Donald Morgan**
*Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB*
*Ffôn 01974 202233*
*Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer*


### Sioe Capel Bangor

Mae y Sioe angen Ysgrifennydd yn adran y Defaid gan fod Dafydd a Julie Morgan wedi penderfynu rhoi gorau i'r swydd ar ôl nifer o flynyddoedd. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb a fyddech cystal a cysylltu â Nerys Daniel 01970880691.

### Digwyddiadau

Sioe Capel Bangor: Cinio blynyddol yng Ngwesty yr Hafod Pontarfynach nos Wener Chwefror 25ain. Enwau i Nerys Daniel 880691

Sioe Capel Bangor: Nos Wener Ionawr 28ain yn Ysgol Pen-llwyn. Noson o ffilmiau ar ddringo a cherdded mynyddoedd yng nghwmni Roger Eyre am 7.30y.h. Pris mynediad £5.00 i oedolion a £2 i blant yn cynnwys te neu goffi.

# LLANDRE

### Blwyddyn Newydd Dda i bawb

### Dymuniadau gorau

Cofion cynnes yr ardal i Gladys Jones, Bronberllan, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Tregaron.

### Ymddiheuriad

Ymddiheuriadau i Mr a Mrs Bell, Glannant am roi eu henwau yn anghywir yn y rhifyn diwethaf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â May Davies a'r teulu, Brynhyfryd ar golli ei chwaer Beti Davies, - gynt o Bow Street - yn ddiweddar.

### Pen blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Ruth Davies, Lightwoods, ar ddathlu ei phen blwydd yn 21ain y mis diwethaf.

### Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Dr John Fish, Penmorfa ar dderbyn yr MBE am ei wasanaeth i'r diwydiant pysgota a'r amgylchedd morwrol.


### Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau calonnog i Bethan Henley, Sunmead, Lôn Glanfrêd, Llandre ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiad theori cerdd Gradd 4 â marc ardderchog o 94%.

Gobeithio hefyd y bydd gofid presennol y teulu am eu Tad-cu, sef tad Mrs Sue Henley, yn cael ei leddfu gan newyddion da o Lanzarote, lle cafodd ddamwain ar ei wyliau, a llawdriniaeth. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan.

# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2011

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 3 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



Cofiwch mai un llythyren yw DD, FF, LL

**AR DRAWS**

**1** Enw record gan Edward H. Dafis ar glawr llyfr *Non* (2, 5, 1, 7)
**8** Llyfr gan Hilma Lloyd Edwards, _ _ _ _ _ *yn y Tŷ* (5)
**9** Llyfr bwrdd gan Charlotte Stowell, *Samuel yn Helpu* _ _ _ (3)
**10** D J Donci Bonc yw enw'r anifail hwn yn *Bili Boncyrs a'r Planedau* (4)
**13** Enw cyntaf awdur *Drwy Lygad y Camera* (3)
**14** Nofel wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn, *'Ac yna Clywodd* _ _ _ *y Môr'* (3)
**16** Hunangofiant John Meredith (2, 3, 5)
**18** Enw cyntaf awdur testun *Llyfr y Ganrif* a gyhoeddwyd yn 1999 (4)
**21** Awdur 36 ar draws (4, 3)
**23** Drama gomedi gan Tony Llewelyn, _ _ _ _ *a Rhemp* (4)
**25** Un o gampweithiau John Davies (5, 5)
**28** Hunangofiant yr actores Buddug Williams, *Y Ferch o'r* _ _ _ (3)
**30** *Cai Gafodd y* _ _ _, llyfr i blant bach gan Tony Ross (3)
**32** Nofel gan Angharad Tomos, _ _ _ _*'n Gwawrio* (4)
**33** *Yr Allwedd* _ _ _ , nofel gan Eurgain Haf (3)
**34** Enw cyntaf awdur *Cymru ar Blât* (5)
**36** Llyfr am ferch o ardal y Bala a rwyfodd ar draws dau gefnfor (2, 3, 10)

**I LAWR**

**1** Nofel gyffrous gan Gwyn Llewelyn, *'_ _ _ _ _ yng Ngruddiau'r Rhosyn'* (2, 3)
**2** Enw cyntaf Prifardd o Benllyn, awdur y gyfrol *Cynefin* (5)
**3 a 35** Enw'r gyfres deledu a esgorodd ar gyfrol ddifyr *Teithiau Dewi Pws – Fo a Fi gyda'i Help Hi* (3, 3)
**4** Cyfrol o storïau byrion, _ _ _ _ *Gaeaf a Storïau Eraill* gan Kate Roberts (4)
**5** Gair olaf teitl nofel rymus gan Llwyd Owen a gyhoeddwyd yn 2006 (6)
**6** Enw cyntaf awdur nofel anarferol *Dyn yr Eiliad* (4)
**7** Cyfenw awdur *Am y Tywydd – Dywediadau, Rhigymau a Choelion* (5)
**11** Cyfrol gan Alun Ifans, _ _ _ _ *Sir Benfro – 24 o Deithiau Hudol* (4)
**12** Enw cymeriad yn *Y Jaguar Glas Tywyll*, nofel gan Elgan Philip Davies (5)
**15** Cyfrol gan Jerry Hunter a enillodd iddo Fedal Ryddiaith 2010 (7)
**17** Nofel wedi'i gosod yn yr Oesoedd Canol gan William Owen Roberts (1, 3)
**18** Casgliad o storïau byrion gan Fflur Dafydd, _ _ _ *y Locustiaid* (3)
**19** Enw cyntaf *Brenhines Powys* y ceir ei hanes gan Gwenan Mair Gibbard – un o *Lyfrau Llafar Gwlad* (4)
**20** Un o gylchgronau bywiog yr Urdd (3)
**22** Nofel gan Gareth F. Williams, _ _ _ _ _ *heb Elin*, enillydd gwobr Tir na n-Og 2007 (5)
**24** Astudiaeth o nodwedd arbennig o'r traddodiad barddol gan R. M. Jones, _ _ _ _ *a'i Gyfeillion* (4)
**26** Enw cyntaf golygydd *Telyn Fyw* a gyhoeddwyd yn 1996 (6)
**27** Aeth Bethan Gwanas yn ôl i'r lle hwn (5)
**28** Teitl nofel rymus gan Michael Morpurgo, _ _ _ _ _ *Rhyfel* (5)
**29** Ffoadur o wlad Laxaria sydd hefyd yn enw ar nofel gan Mihangel Morgan (5)
**30** *Haf* _ _ _ _ gan Angharad Tomos, llyfr a gyhoeddwyd yn 2010 (4)
**31** Cyfrol ddifyr gan y diweddar Gwyn Erfyl, _ _ _ _ *Ddirgel Ffyrdd* (4)
**35** Gweler 3 i lawr.

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com
llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

**ENW**

**CYFEIRIAD**

**ENW'R PAPUR BRO**

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2011. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY 03.03.2011

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Hen Dafarn wedi Ailagor

Llongyfarchiadau i Nicol a Dewi Gwynne, gynt o Tynffordd, Capel Bangor, ar eu menter newydd yn hen dafarn Cross Foxes neu'r Croes fel y mae'n cael ei galw yn lleol ym Meirionnydd. Mae erbyn hyn yn adeilad hardd ar y groesffordd lle rydych yn troi am Fachynlleth, Dolgellau neu Ddinas Mawddwy. Mae Dewi sy'n adeiladwr wedi bod yn gweithio ar yr adeilad ers dwy flynedd, ac mi gafodd ddigon o broblemau, gan fod y dafarn wedi ei leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac wedi ei restru gan Cadw yn adeilad Gradd 2 ac yn gartref i sawl math gwahanol o ystlumod. Doedd dim modd cael cylchfan, oherwydd y byddai goleuadau y gylchfan yn ôl arbenigwyr, yn drysu'r ystlumod!!

Ond gyda chymorth gan y Cynulliad, a benthyciad gan Gyllid Cymru, ( a thyllau arbennig i'r ystlumod i fedru mynd i mewn ac allan) mae'r Cross Foxes ar ei newydd wedd. Mae wedi ail agor ers Tachwedd 19eg ac maent yn cyflogi 19 0 bobl yn cynnwys 4 cogydd.

Ffermdy arferai fod ar y safle flynyddoedd maith yn ôl, ac er mai ym 1859 y cafodd ei adeiladu fel y Cross Foxes presennol, mae'n debyg ei fod yn dafarn ymhell cyn hynny.

Mae croesffordd brysur yn sicr yn le da i roi tafarn neu westy, ac mae Nicol a Dewi, yn ôl y sôn, wedi bod yn brysur er gwaethaf y rhew ac eira. Dymuniadau gorau ardal y Tincer iddynt, a boed llwyddiant mawr i'w menter newydd. Ewch i gyd yno am bryd o fwyd yn 2011!

### Miss Gwen Davies, Pant Teg

Tristawyd ardal gyfan o glywed am farwolaeth Gwen, yn 89 mlwydd oed, aelod arall o Gapel Pen-llwyn. Roedd wedi bod yn yr ysbyty ers peth amser cyn hynny. Bu ei hangladd ar Ragfyr 17eg 2010. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Parch Ifan Mason Davies, yn cael ei gynorthwyo gan rai o'r Eglwys Efengyladd yn Aberystwyth, ble yr arferai Gwen addoli ar Nos Sul. Yr oedd yn ddiwrnod oer ac yn bwrw eira trwm ar adegau, ond daeth ei pherthnasau a ffrindiau ynghyd i dalu iddi y gymwynas olaf.

Ei dymuniad oedd peidio a chael teyrnged fel y cyfryw, ond i ogoneddu ei Harglwydd mewn diolchgarwch. Roedd Gwen yn wir Gristion; wedi bod yn selog iawn i'r Ysgol Sul a'r capel ers yn ieuanc, ac yn ffyddlon iawn i'r gwasanaethau hyd y diwedd.

Roedd yn ferch i Dei a Geta Davies, 6 Dolpandy, a gweithio i'r dreth incwm oedd ei gwaith cyn ymddeol.

Coffa da iawn am Miss Gwen Davies, bydd llawer un yn gweld ei heisiau yn fawr. Erys yr atgofion hyfryd amdani am amser hir i ddod.

### Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg, cofiwn yn ein gweddïau am amryw o bobl yr ardal sydd yn glâf yn yr ysbyty, neu wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Cyfeiriwn at Mr Martin Davies, Maencrannog; Mrs Doris Maioranna, Dolpandy, a Mrs Gwladys Jones, Abercwmdolau. Deallwn hefyd fod Mrs Sally Evans, Tywynfa, yn Ysbyty Tregaron. Mae Mrs Enid Jones, Awel Deg, wedi derbyn triniaeth, a Mrs Maggie Jones, Haulfryn, wedi dioddef codwm yn y dre cyn y Nadolig. Dymuniadau gorau am wellhad buan i chi oll. Hyderwn hefyd fod Mrs Rhian Morgan, 2 Tynllidiart, yn mwynhau gwell iechyd erbyn hyn. O ddiffyg gwybodaeth, nid ydym wedi medru dymuno yn dda iddi hithau cyn y mis hwn.

### Cydymdeimlad

Estynnwn eto ein cydymdeimlad i aelod arall o Gapel Pen-llwyn, sef Mrs Eleanor Jones ,Tangaer, a gollodd ei mam ar ôl y Nadolig, sef Mrs Anne (Nan) Jones, gynt o 8 Rhydybont, Penparcau a Pontrhydfendigaid. Roedd yr angladd yn Eglwys Ystrad Fflur ar 4ydd o Ionawr. Cofiwn am Wynne, Eleanor a Hannah yn eu hiraeth.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Yn ôl ein harfer aeth yr aelodau allan am ginio Nadolig ym mis Rhagfyr. I fwyty'r Farmers, Llanfihangel y Creuddyn yr aethom ac yno fe'n croesawyd gan Rhodri ac Esther Edwards. Mwynhawyd pryd blasus o fwyd a chyfle i sgwrsio â'n gilydd. Ond dim ond tamaid i aros pryd oedd hyn oherwydd roedd dau berson ifanc wedi ymuno â ni, sef Eilir a Meleri Pryse. Cafwyd unawdau ar yr ewffoniwm gan Meleri ac adroddiadau ac unawd gan Eilir ac ef a gyflwynai'r eitemau.

Diolchodd Angharad Jones, ein llywydd, i Eilir a Meleri am ein diddori ag eitemau o safon ac i'w mam am gyfeilio i Eilir. Diolchodd hefyd i Rhodri ac Esther am y bwyd blasus ac am agor y bwyty yn arbennig ar ein cyfer.

Enillwyd y gwobrau raffl gan Beti Daniel, Meleri Pryse ac Eirwen Sedgwick.

Croesawyd Claire Morris i'n cyfarfod ym mis Mawrth gan Liz Collison, ein his-lywydd. Fel Claire Powell oedd y mwyafrif o'r aelodau yn ei hadnabod gan iddi gael ei magu yng Nghwm Brwyno ac iddi fynychu Ysgol Pen-llwyn.

Ers Ebrill 2009 mae Claire wedi sefydlu ei busnes ei hun, sef Pecyn Pert. Cytunodd Llinos Jones i dderbyn triniaeth o dan ddwylo medrus Claire. Aeth Claire ati i roi triniaeth lawn i wyneb Llinos gan egluro'n fanwl yr hyn a wnâi gam wrth gam.

Diolchwyd i'r ddwy gan Liz Collison ac rwy'n siŵr bod sawl aelod yn dyheu am gael triniaeth debyg i'r un a gafodd Llinos (ond heb y gynulleidfa!) Eirlys Davies ac Eirwen McAnulty a sicrhaodd bod paned ar gael i bawb ar ddiwedd y noson.

### Calennig

Mae yr arferiad yma o ganu calennig yn brysur ail gydio ym Mhen-llwyn. Cafwyd pedwar parti bach i gyd, yn dymuno blwyddyn newydd dda ym Mlaengeuffordd. Hyfryd oedd eu gweld.

# DOLAU

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Williams, Bronafon, - Eimear wedi colli brawd a oedd yn byw yn Iwerddon.

O dan y môr â'i donnau, Mae llawer dinas dlôs, Fu'n gwrando ar y clychau, Yn canu gyda'r nôs...
oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor 8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# Y BORTH

### Y Morglawdd

Braf iawn yw nodi fod y clawdd yn mynd yn ei flaen gyda'r gwaith wedi cychwyn ar y 10fed o Ionawr. Bydd dros 80 o ddynion yn gweithio am chwe mis o leia i gwblhau'r cyfan.

Edrychwn ymlaen i weld rîff yn codi ger Craig y Fulfran (bydd hyn o fudd i syrffwyr ac i ddiogelwch y pentre) ac ar y traeth bydd cyfres o ynysoedd cerrig a fydd yn cymryd lle y 'groynes' pren presennol.
Mae'r gwanwyn a'r haf eleni'n addo golygfeydd hanesyddol.

### Yr Orsaf

Roedd y 10fed o Ionawr eleni yn ddyddiad pwysig am reswm arall, sef dyddiad cychwyn y gwaith ar yr orsaf- creu stafell i gofnodi hanes cynnar rheilffordd y Borth a hanes yr ardal. Pob lwc i'r gweithwyr! (Bydd rhaid defnyddio mynedfa ac allanfa ochr am gyfnod drso dro.)

### Gwirfoddolwyr

Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn chwilio am help. Os ydych yn teimlo y gallwch gyfrannu a fyddech gystal â cĐysylltu â Carol Davies ar 871280. Maent yn chwilio am bobl sy'n gallu garddio, gwneud ychydig o waith cynnal a chadw ar yr adeilad yn ogystal â helpu yn y dosbarth gyda darllen a chludo plant ar wibdeithiau ac ymweliadau addysgol ayyb. Byddent yn gwerthfawrogi unrhyw gymorth.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Megan Clift, Station House, Cambrian Terrace, Y Borth ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiad theori cerdd Gradd 1. Gobeithio bod cael 95 o farciau allan o 100 wedi codi ychydig ar ei chalon wedi i'r tywydd ei rhwystro hi a nifer o'i chyfoedion ysgol rhag mynd ar daith i farchnadoedd Nadolig yr Almaen.



### Artistiaid y Borth

Muriel Delahaye

**Enw a chyfeiriad.** Muriel Delahaye, Efailwen. Mae golygfeydd o'r môr i'w gweld o fy stiwdio, ac mae'n ysbrydoliaeth gyson.

**Pam byw yn y Borth?** Oherwydd Louis y mab. Roedd yn wyth oed ac yn byw yn Oldham ac yn dioddef yn wael o'r fogfa. Roeddem wedi bod am wyliau yn y Borth a mwynhau'r profiad, felly dyma godi pac a dod i fyw yma'n barhaol. Diflannodd y fogfa!

**Sut fyddech yn disgrifio'ch gwaith?** Yn ffigyrol yn hytrach na thirweddol. Mynegiadol (expressionist) yn hytrach na swreal.

**Hyfforddiant?** Coleg Celf Manceinion.Cyfnod hapus iawn yn fy mywyd, lle roeddwn yn teimlo mod i'n medru cyfrannu-mor wahanol i ddyddie ysgol lle roedd Mathemateg yn hunllef i mi!

**Dylanwadau ar eich gwaith?** Roedd na ddau ddylanwad mawr. Y cyntaf oedd Stanley Spencer o Cookham. Roedd yn aeaf caled ac roedd fy ffrind a minnau yn Cookham heb lety. Trwy rhyw ryfedd wyrth, cawsom lety gan ŵr caredig iawn ac un o gewri'r byd celf-Stanley Spencer. Arhosom am wythnos yn rhewi ond yn dysgu cymaint wrth ei wylio'n paentio bob dydd. Braint. Braint arall oedd dod i nabod L.S. Lowry, gŵr o'm hardal i yn Oldham. Tra yn y Coleg Celf roedd rhaid neud traethawd hir a chan fod Lowry'n byw'n gyfagos fe ddes i'w adnabod drwy'r traethawd, ac unwaith eto cael y cyfle i brofi artist mawr wrth ei waith.
Y dylanwadau eraill (na chefais y fraint o'u hadnabod!) yw Goya ac Emil Nolde.

**Pwy ydych chi'n edmygu a) fel person b) fel artist?** Pun ai'n artist neu'n berson, yr hyn rwy'n edmygu yw'r unigolyn sydd wedi llwyddo yn erbyn pob rhwystr. Am y rheswm hyn hoffwn enwi Collette, Gorky a Dostoyevsky, fel artistiaid a phobl.

**O edrych yn ôl pa ddarn o'ch gwaith sydd wedi eich plesio mwyaf?** Hwyrach mai 'Perilous Voyage' yw'r llun sy'n nodweddu 'ngwaith h.y. dyn a dynes mewn cwch bach yng nghanol y bae. Mae'r elfennau yma yn frith yn fy gwaith.

## Dysgwr y mis

**Beth yw eich enw?** Linda Mills.
**Faint yw eich oed?** 52
**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Dechreuais i ddysgu pan oedd y plant yn ifanc ac yn dechrau siarad Cymraeg yn yr ysgol. Roeddwn yn arfer cael sgyrsie gyda'r athrawon yn Gymraeg, ac roedd hyny'n braf.
**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Ym Maes Lowri yn Aberystwyth, Carwen oedd fy athrrawes gyntaf wedyn Haf ap Robert, yna ymarfer gyda fy ffrindiau yn y Borth.
**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** Stechford, Birmingham.
**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Gan mod i wedi symud i Gymru, roeddwn i'n meddwl ei fod yn bwysig i ddysgu'r iaith. Ro'n i'n mwynhau'r Eisteddfod flynyddol yn Ysgol Craig yr Wylfa ac ro'n i'n awyddus i ddeall beth oedd yn mynd ymlaen ac am wbod pwy oedd yn ennill!
**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Yn achlysurol yn y gwaith ond yn anffodus dydw i ddim yn cael cyfle i siarad yn aml erbyn hyn.Byswn yn hoffi ailgydio.



TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

# Cyfarfod lleol yn lansio ymgyrch IE dros Gymru yng Ngheredigion

Lansiwyd yr ymgyrch leol dros bwerau deddfu go-iawn i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfarfod arbennig yn Aberystwyth ar nos Fercher, 5 Ionawr 2011.

Daeth cynulleidfa enfawr o dros ddau gant ynghyd i gyfarfod yng Nghanolfan y Morlan i gynnig eu hymrwymiad i bleidleisio 'Ie' ar Fawrth 3ydd ac i drefnu gweithgareddau lleol.

Yn siarad ar y noson yr oedd grŵp trawsbleidiol o wleidyddion gan gynnwys Elin Jones AC a Mark Williams AS yn ogystal â grŵp o unigolion ar draws y sir.

Dywedodd Richard Griffiths, dyn busnes lleol, fod angen ar fusnesau yng Nghymru Gynulliad a fyddai â'r gallu i ymwneud yn llawn â'r sector fusnes yng Nghymru oedd yn "hyblyg ac yn ysgafndroed". Ategodd Jane Wyn, aelod o'r ymgyrch 'Ie' dros Gymru mewn araith rymus ei bod hi'n rheidrwydd i Geredigion nid yn unig i wireddu pleidlais 'Ie' ond pleidlais bendant a diamwys.

Eu dadl oedd y byddai cael pwerau deddfu go-iawn i'r Cynulliad Cenedlaethol:

Yn lleihau gwastraff ar amser ac arian drwy symleiddio'r gwaith o greu cyfreithiau Cymreig

Yn rhoi'r offer i'n gwleidyddion allu gweithredu polisïau er lles ein pobl

Yn codi statws Cymru ymhlith cenhedloedd Prydain ac Ewrop

Yn dangos hyder yn ein dyfodol fel cenedl

Yn Cadeirio'r noson oedd Yr Arglwydd Elystan-Morgan a nododd:

"Mae'r refferendwm yn deillio'n uniongyrchol o adroddiad unfrydol Richard a fynnai i'n cenedl feddu ar hawl i ddeddfu mewn ystod eang o faterion cartref sy'n ymwneud â Chymru'n arbennig. Cytunodd Senedd Westminster mai mater i bobl Cymru oedd y penderfyniad hwn. Os 'Ie' fydd y ddedfryd, yna byddwn fel cenedl wedi symud yn agosach at lefel hawliau deddfwriaethol Yr Alban a Gogledd yr Iwerddon. Ond os 'Na' bo'r ddedfryd, byddwn yn destun gwarth i weddill Prydain.

Gwn fod ton gref o gefnogaeth i'r cynigion hyn yn rhedeg drwy ein gwlad, ond ni fedwn laesu dwylo am un funud rhag ofn i or-hyder a difrawder golli inni'r wobr euraidd hon sydd o fewn cyrraedd."

Am ragor o wybodaeth ar sut i roi cymorth i'r ymgyrch Ie dros Gymru (Ceredigion) e-bostiwch ceredigion@iedrosgymru.com neu ffoniwch 01970 624456.



## COLOFNYDD Y MIS

## LOIS DAFYDD



Ddwy flynedd yn ôl oedd yr eildro i fi adael Bow Street am Gaerdydd — y tro cyntaf i fyd y brifysgol, a'r tro hwn i fyd gwaith. A doedd hi ddim yn hawdd ffarwelio â'r hen bentre y naill dro na'r llall!

Dros y ddwy flynedd diwethaf, dwi wedi bod yn gweithio gydag ITV Cymru yng Nghroes Cwrlwys, ar wefan Y Dydd (www.ydydd.co.uk). Gwefan yw hon sy'n cyfuno newyddion dyddiol, rhaglenni o'r archif (sy'n cynnwys Pobl y Chyff a Ffalabalam), ac eitemau a chyfweliadau y byddwn ni'n mynd ati i'w trefnu, eu ffilmio, eu golygu, a'u cynhyrchu ein hunain.

Dwi wedi cael amryw brofiadau yn ystod y cyfnod hwn, gyda rhai uchafbwyntiau amlwg. Rwyf wrth fy modd yn ffilmio gyda phlant ac ysgolion ledled Cymru, ac wedi dychwelyd i Bentre Bach Sali Mali sawl tro ar gyfer dathliadau Diwrnod y Llyfr a Diwrnod T. Llew Jones! Roedd y profiad o dreulio diwrnod yn ffilmio eitem tu ôl i'r llenni gyda Dai Jones a chriw Cefn Gwlad ar fferm yng Nghaergybi yn un i'w gofio, a dwi wedi cael y cyfle i gyfweld â nifer o bobl ddiddorol, gan gynnwys Caryl Parry Jones, Only Men Aloud, a Jamie Roberts.

Ond bydda i'n gadael y swydd gydag ITV Cymru ganol Chwefror, ac yn dechrau ar antur newydd fis Mawrth. Wrth i chi ddarllen hwn, mae'n siŵr y bydda i wrthi fel slecs yn paratoi ar gyfer treulio wyth mis yn gweithio ym Mhatagonia! Mynd yno yn swyddog maes gyda Menter Patagonia fydda i, i drefnu cyfleoedd i'r Gwladfawyr gymdeithasu yn y Gymraeg — boed hynny'n glybiau plant, yn sesiynau sgwrsio i rieni, neu'n deithiau cerdded i'r teulu cyfan!

Ac mae gen i dipyn o waith trefnu a pharatoi i'w wneud...

Ychydig ddiwrnodau yn ôl fues i mewn cyfarfod o Gymdeithas Cymru-Ariannin yng Nghaerdydd, a oedd yn rhoi blas (llythrennol) ar fwydydd yr Archentwyr — empanadas, milanesas, guiso... Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i gwrdd â phobl sydd â chysylltiadau â'r Wladfa, a rhai brodorion.

Er i fi ymweld â Chile, a theithio drwy nifer o wledydd America Ganol yn 2008, hwn fydd fy ymweliad cyntaf â Phatagonia. Bydd y Wladfa ar drothwy'r hydref pan fydda i'n cyrraedd yna, ac mae sawl un wedi dweud wrtha i'n barod am wneud yn siŵr 'mod i'n prynu thermals, gan fod y gaeafau yno'n oer. Anodd credu y gall unrhyw le fod yn oerach nag oedd Cymru fis Rhagfyr diwethaf! Dwi hefyd wrthi'n trio dysgu Sbaeneg, ond yn bell o fod yn rhugl eto. Diolch byth fod 'na bobl ym Mhatagonia sy'n siarad Cymraeg! Ac wrth gwrs, mae'n rhaid i fi sicrhau digon o amser i ffarwelio â phawb cyn i fi adael Bow Street unwaith eto.

Dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at y profiad — yn enwedig ar ôl sgwrsio ag amryw bobl, blasu'r bwydydd, a darllen pentwr o lyfrau roedd Siôn Corn yn ddigon hael i'w rhoi i fi dros y Nadolig!

A phwy a ŵyr, falle bydd cyfle eto i rannu rhywfaint o'r hanes ar dudalennau'r Tincer ar ôl i fi ddychwelyd...

# LLYFR

*100 o ganeuon pop*: golygwyd gan Meinir Wyn Edwards. Y Lolfa 192t. £14.95

Trafod a dadlau wrth y bwrdd ar ôl pryd o fwyd yw'r traddodiad yn ein teulu ni, gyda'r unig gitarydd yn y cwmni yn darparu cefndir cerddorol deheuig os oes offeryn yn digwydd bod wrth law - ar yn ail â chyfrannu at y sgwrs wrth gwrs!

Eleni roedd hi'n wahanol. Yn gyntaf roedd gyda ni egin ail gitarydd. Ac yn ail roedd y llyfr *100 o ganeuon pop* ar y bwrdd.

Yn lle gwrando a hanner hymian a cheisio llusgo geiriau o ddyfnder y cof, dyna lle roedd y fersiynau llawn o'n blaenau ni, gyda'r cordiau wedi eu darlunio'n glir yng nghefn y llyfr ar gyfer y gitarydd newydd. Cawson ni noson i'w chofio gyda chaneuon megis Cân Walter, Rebal Wîcend, Ysbryd y Nos, Macrall wedi Ffrio, Pan ddaw yfory, Ceidwad y Goleudy — i enwi ond

*Felix Aubel Fy ffordd fy hunan.* Y Lolfa, 2010 208t. £8.50


**Rhy Onest i Fod yn Aelod Seneddol**

Yn un o wleidyddion mwyaf dadleuol a di-flewyn ar dafod Cymru, mae Felix Aubel wedi ei labelu fel enfant terrible i genedlaetholwyr Cymru ers degawdau. Er hynny, mi ddywedodd Ffred Ffransis ym mis Ionawr 2009 ei fod yn credu i Felix Aubel fod yn ŵr rhy onest i fod yn Aelod Seneddol. Pa ddelwedd felly o'r gŵr gweithgar hwn sy'n gywir?

Fe gawn ddarganfod mwy am y gwleidydd, athro, gweinidog ac arbenigwr hen bethau wrth iddo gyhoeddi ei hunangofiant, Fy Ffordd Fy Hunan.

Does neb all wadu fod y gŵr a fagwyd dan ddylanwad wrth-Gomiwnyddol ei dad, ffoadur o Slofenia a cheidwadaeth ei fam o Aberdâr, wedi byw bywyd yn ei ffordd ei hun, a cheir yma hanes ei gymeriad unigryw, rhyfeddol a chynnes tu hwnt.

Wedi ei fagu yn Nhrecynon fe astudiodd radd mewn Hanes ym Mhrifysgol Llanbed, dyna ddechrau blynyddoedd o astudio gwahanol bynciau mewn gwahanol leoliadau cyn yn y diwedd ddilyn gyrfa fel athro ac yna fel gweinidog gyda'r Annibynwyr Cymraeg . Roedd gwleidyddiaeth yn bwnc trafod ar yr aelwyd dros y blynyddoedd, ond tra yn y coleg ysbardunwyd Felix i gymryd rôl fwy gweithgar yn y maes. Dechreuodd ei yrfa gyda'r Democratiaid Cymdeithasol (SDP) cyn dod o hyd i'w draed fel rhan o'r Blaid Geidwadol.




Ymgeisiodd fel Aelod Seneddol sawl tro, ond ac yntau heb lwyddo i ennill sedd yn San Steffan, fe barhaodd ai waith cefnogol i eraill. Daeth yn wyneb cyfarwydd fel siaradwr ar ran y Blaid Geidwadol ar radio a theledu gan ddod yn adnabyddus fel gŵr gonest, di-flewyn ar dafod a pharod ei farn.

Mae'r nodweddion yma'n parhau'n glir yn ei hunangofiant wrth iddo fynd ati i adrodd ei hanes yn ddidwyll. "Dwi'n credu mai gwaith hunangofiant, yn hytrach nag eistedd ar y ffens a thrio gwyngalchu'r gorffennol, yw bod mor wrthrychol â phosib. Mae teitl y gyfrol yn efelychu cân Frank Sinatra, My Way, fel petai. Dwi'n gweld hunangofiant yn ffordd o groniclo pethau fel ro'n i'n eu gweld nhw. Dros y blynyddoedd ma' pob un yn y byd darlledu a'r byd gwleidyddol wedi dweud fy mod i wastad wedi bod yn barod i fynegi barn yn gwbl ddi-flewyn ar dafod a dyna dwi'n wneud yma," meddai Felix Aubel.


Yma cawn glywed ei farn ar sawl person a sefyllfa. O'i feddyliau ar hunanlywodraeth i Gymru, i rai o aelodau ei blaid ei hun fel Margaret Thatcher, Jeffrey Archer, Rod Richards a Nick Bourne. Yn gymeriad unigryw sy'n corddi'r dyfroedd drwy ei gredoau, mae'n weinidog sy'n credu mewn erthylu ac ysbrydion ac yn Geidwadwr sy'n mwynhau cwmni pobl sy'n cefnogi bartïon eraill yn fwy nag o blaid ei hun. Ceir yma hefyd gofnodion o fywyd caled ei dad fel carcharor rhyfel a'r achlysuron pryd y ceisiwyd ei ladd gan wrthwynebwyr i'w blaid.

Ond ceir hefyd ddisgrifiad o ŵr gweithgar, croen dew, cynnes a chymwynasgar, cymeriad lliwgar sy'n hoffi amrywiaeth ac sy'n credu, hyd yn oed mewn sefyllfa ddifrifol, fod yn rhaid cael rhyw elfen o hiwmor.

Wedi corddi'r dyfroedd ar sawl achlysur, mae Felix Aubel wedi denu sylw. Bydd y gyfrol hon hefyd yn siŵr o ddenu ymateb, ond bydd hefyd yn sicr o ddenu chwilfrydedd, edmygedd a diddordeb am gymeriad unigryw sydd wedi troedio ei lwybr ei hun.

Meddai Felix, "Ysgrifennwch bethau fel y gwelwch nhw, doed a ddêl, ac os ydy pobl yn meddwl mwy neu lai ohonoch chi yn sgil hynny, mater iddyn nhw ei benderfynu ydy hynny. Fe es i ati i sgrifennu'r pethau fel mae'r teitl yn ei ddweud, unan."

Ceredigion: *101 o'i beirdd ac emynwyr*
*Llangeithio: Eirian Jones,* 2010. £6 142t




Tybed faint wyddoch chi am rai o gymeriadau difyr eich bro? Roedd nifer ohonynt yn feirdd ac emynwyr ac mae eu hanesion a'u bywgraffiadau wedi eu casglu mewn cyfrol newydd. Er enghraifft, faint o'r cwestiynau hyn fedrwch chi ateb?

Pa un o feibion y Cilie ysgrifennodd gwpled ar Dŵr Heddwch, Senedd-dy Canada yn Ottawa? Pa fardd o Lanbed a wisgai'n drawiadol iawn, gyda gwasgod liwgar a het Americanaidd? Pa ddyn o Lannarth oedd yn berchen ar freichiau hir dros ben a medrai ddatod botwm pen-glin ei drowsus heb blygu o gwbl? Pa wraig redodd i ffwrdd i'r môr a theithiodd ar draws yr Unol Daleithiau dros ganrif a hanner yn ôl?

Pa fardd o ardal Aberystwyth oedd yn ffrind i'r nofelydd Ffrengig Guy de Maupassant? Pwy oedd yn ffrind i'r gantores enwog Edith Piaf? Pwy werthodd y goron yr enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol 1926? Pa faledwr gadwai fulod ar bromenâd Aberystwyth? Ym mha wlad Ewropeaidd y bu Twm Siôn Cati yn byw? A tybed, beth hoffai John Gwilym Jones ymarfer yn sied wair Parc Nest?

Ceir nifer fawr o ffeithiau difyr (a'r atebion i'r cwestiynau uchod) am rai o gymeriadau Ceredigion yn y gyfrol hon. Nodir man geni neu enw cartref y bardd, prif orchest, cyhoeddiadau'r bardd a bywgraffiad byr. Mae'r enwog a'r llai adnabyddus wedi'u crybwyll, a daw'r beirdd o bob cwr o'r sir ond yn benodol o ddalgylch y Tincer rhoir sylw i Ifor Davies, Vernon Jones, Tegwyn Jones, George Powell, Isaac Williams, J.J. Williams, Dewi Morgan, Dafydd ap Gwilym ac Elizabeth Crebar (merch Lewis Morris).

Pris y gyfrol yw £6 ac mae ar werth yn siopau llyfrau Ceredigion.

---


ychydig o ffefrynnau - yn cael eu canu ar eu hyd, y cordiau'n sbot-on, a'r cytganau a'r penillion yn eu priod le!

Ond yn fwy na'u canu, roedd hi'n bosib craffu ar y geiriau, - am y tro cyntaf gyda llawer o'r caneuon achos nad yw ynganu clir wedi bod yn flaenoriaeth i bob un o'u perfformwyr. Mae yma gyfoeth o eiriau sy'n wirioneddol werth eu darllen a'u trafod.

Mae rhwymiad y llyfr yn ei gwneud hi'n hawdd i'w gadw ar agor ar y ddewis ddalen ar fwrdd neu ar stand offeryn (trueni na fasai *Caneuon Ffydd* wedi dewis yr un rhwymiad!). Gyda'i bapur cadarn a'i argraffu glân mewn ffont ddarllenadwy dylai allu dioddef llawer i storm.

Pan oeddwn i'n ifanc mi dreuliais oriau lawer wrth y piano yn pori yn y *Songs of Wales,* y canon hwnnw o ganeuon poblogaidd ein cenedl a oedd wedi ei fwriadu ar gyfer rhywun heblaw'r Cymry Cymraeg, fel roedd ei enw'n dangos. Fe ddywedwn i fod *100 o ganeuon pop* yn olynydd teilwng i'r casgliad hwnnw o ran rhychwant y cynnwys, ond aton ni, ac unrhyw un fynn ymuno â ni, mae'r gyfrol hon wedi ei hanelu. Diolch amdani.

LlD



# BOW STREET

## Suliau Chwefror

*Y Garn*
10 a 5
Gweler http://www.capelygarn.org/
6 Chwefror: Y Parchg Richard Lewis (Noddfa)
Bugail (Y Garn)
13 Chwefror: Mr Arwyn Pierce
Bugail
20 Chwefror: Bugail (oedfa gymun yn y bore)
27 Chwefror: Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth

Cyfarfodydd eraill:
Cwrdd Chwiorydd y Garn: Pnawn Mercher, 2 Chwefror am 2.30 o'r gloch: Gŵr gwadd - Mr Tegwyn Jones

## Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul y Garn

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig ysgol Sul y Garn bore Sul, 12 Rhagfyr. Lluniwyd y sgript gan Dr Rhodri Llwyd Morgan a thrwy gyfrwng ffilm gwelwyd nifer o eliyns o blaned arall yn glanio ar y ddaear ynghanol paratoadau'r Nadolig - yng Ngŵyl y Gaeaf, Caerdydd, ac ym mhentref Bow St a'r cyffiniau - yn chwilio am wir neges y Nadolig. Yn y diwedd daethant ar draws plant yr ysgol Sul yn ymarfer ar gyfer cyflwyno'u gwasanaeth Nadolig.

Yn dilyn cyflwyniad y plant cafwyd neges amserol i bawb gan ein gweinidog, y Parchg Wyn Rh. Morris, yn seiliedig ar gracer Nadolig.

Cyfeiliwyd gan Llio Penri a'r band, sef Rhun, Gwern, Iestyn a Ffion.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth i bawb yn y festri yn ogystal â pharti i'r plant, wedi'i drefnu gan Janet Roberts, Rhian Jones-Steele, Joyce Bowen a rhieni'r ysgol Sul. Cafwyd ymweliad gan neb llai na Siôn Corn ei hun, a ddosbarthodd anrhegion i blant yr ysgol Sul.

Chwiorydd Capel y Garn
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr Chiworydd y Garn brynhawn Mercher, Ionawr y 5ed. Mrs Meinir Roberts arweiniodd y defosiwn agoriadol. Roedd y te wedi ei baratoi gan Chwiorydd ardal Pen-y-garn. Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod cyfeiriodd y cadeirydd, Mrs Llinos Dafis, at dair o'r chwiorydd nad oedd yn bresennol oherwydd afiechyd, sef Mrs Nest Davies, Dolau, Mrs Ann Jones, Pen-y-Garn, a Mrs Gwladys Jones, Llandre.
Y siaradwr gwadd oedd Mr Dewi Hughes. Dan y teitl 'O Bellter y Byd Alltud' rhoddodd i ni gip, trwy gyfrwng llun, pytiau o ffilm, a geiriau, ar ddwyster teimladau Cymry Patagonia at Gymru, er bod llawer ohonyn nhw heb erioed roi troed ar ei daear. Gadawodd gyda ni linellau olaf syfrdanol soned Irma Hughes de Jones, I Gymru:
Pan ddelo'r dydd i ysgwyd llaw â thi,
Rwy'n erfyn, Gymru fach, na'm sioma i!

## Sgwrs

Bydd Leusa Fflur Llywelyn yn rhoi sgwrs Dilyn llwybrau T. Ifor Rees yn America Ladin yn Drwm LLGC am 13.00 ar Chawefror 23. Gellir cael tocyn(nau) am ddim trwy ffonio 632800



Ffion Gruffudd, 96 Bryncastell, Bow Street a Gwynfryn Hughes, Llwyngwyddil, Ffair-rhos a briodwyd ym Mhlas Dolguog, Machynlleth ar ddydd Sadwrn 31 Gorffennaf, 2010. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Hafod y Gaseg, Ffair-rhos. Llun: Robert Clark

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Sian a Huw a'u teuluoedd ar farwolaeth Elizabeth (Beti) Davies gynt o 4 Caerfelin a Lodge, Plas Gogerddan, yng Nghartref Hafan y Waun ar Ragfyr 23ain.

## Bingo
yn Neuadd Rhydypennau

Cynhelir bingo ar nosweithiau Mercher **Ionawr 19eg, Chwefror 16eg a Mawrth 16eg** am 7:30

YN EISIAU

## GOFALWR GOFALWYR

I FYW YN NHŶ CAPEL Y GARN, BOW STREET

Telerau i'w trafod
**Am ragor o fanylion, cysylltwch ag:**
Alan Wynne Jones,
Trem-y-ddôl, Bow St,
Ceredigion SY24 5BJ
01970 828163;
alan@alanjones9.wanadoo.co.uk

**Dyddiad cau:**
18 Chwefror 2011



Rhun, Gwern, Ffion a Iestyn yn cyfeilio yng ngwasanaeth Nadolig y Garn.



Plant ysgol Sul y Garn yn dilyn eu gwasanaeth Nadolig

# Mynd yr Ail Filltir

Nid yn aml y bydd un o drigolion ardal *Y Tincer* yn cael ei lun ar dudalen flaen cylchgrawn cenedlaethol, a chael stori a lluniau eraill ohono o'r tu mewn iddo. *Coach Driver's Club News* yw'r cylchgrawn dan sylw, a gwrthrych y stori yw Rhŷs ap Tegwyn, Maes Ceiro, Bow Street, sy'n un o yrrwyr y cwmni lleol, Mid-Wales Travel. Yn ôl ym mis Medi llynedd yr oedd Rhŷs wedi gyrru coits i Sandown ar Ynys Wyth yn ne Lloegr, ac ymhlith y rhai a deithiai arno yr oedd Mr a Mrs Michael Morgan.o'r Felin-fach ger Llambed. Ar noson ola'r gwyliau, daeth galwad ffôn iddynt oddi wrth ei mab yn Ffos-y-ffin, i ddweud bod ei gartref ef wedi llosgi i'r llawr. 'Rwyf wedi colli popeth, dad' oedd ei neges dorcalonnus. Yn naturiol yr oedd ei rieni yn awyddus iawn i fynd yn ôl adref ar unwaith i fod gydag ef yn ei drybini. Ond sut oedd gwneud hynny heb golli amser gwerthfawr? Dyna lle daw Rhŷs i mewn i'r darlun. Cynorthwyodd hwynt i drefnu'r daith adref, fel eu bod yn cyrraedd y noson honno, yn hytrach na thrannoeth, ac er mwyn iddynt allu teithio'n ysgafn, trefnodd i ddod a'u bagiau yn ôl i'w cartref yn ddiweddarach. Yr oedd Mr Morgan mor ddiolchgar fel y penderfynodd gysylltu â chyflogwr Rhŷs a hefyd â'r cylchgrawn uchod, a daeth cais ar unwaith oddi yno yn gofyn iddo roi cyfweliad. Rhoddwyd y stori, fel y dywedwyd, ar y tudalen blaen. o dan y pennawd 'Beyond the Call of Duty'. Sylw Rhŷs oedd: 'Wnes i ddim mewn gwirionedd, dim ond gwneud ychydig o alwadau ffôn, a cheisio cysuro Mr a Mrs Morgan. Byddai unrhyw un arall wedi gwneud yr un peth'.




# Arwres gyfoes sydd am ein herio

Mae cyfres ddrama newydd yr awdures Siwan Jones, sy'n dechrau ar S4C, nos Sul 23 Ionawr yn gosod her i'r gwyliwr wrth bortreadu'r ddau fyd sy'n bodoli oddi fewn tref fechan yng ngorllewin Cymru. Byd perchenogion y siopau, a byd y rhai sy'n byw y tu ôl ac uwchben y siopau hynny. Dau fyd cwbwl wahanol, sydd eto yn cyffwrdd â'i gilydd ac yn rhannu profiadau.

"Mae Alys yn ddrama ddwys iawn, ond mae 'na ddogn o hiwmor du yn perthyn iddi," meddai Siwan, a greodd y cyfresi llwyddiannus a phoblogaidd Tair Chwaer a Con Passionate ar gyfer S4C. "Mae 'na elfen o stori ddirgel ynddi hefyd - stori iasoer. Yn sicr, rwy'n ceisio arbrofi ac mae 'na naws wahanol yn perthyn iddi. Mae'n filmic iawn wrth i mi gyfleu dyheadau mewnol y cymeriadau a'r gymdeithas maen nhw'n perthyn iddi."

Mam sengl ifanc yw Alys sydd wedi ffoi o'i gorffennol yng Nghaerdydd gyda'i mab bach, Daniel, ac wedi glanio mewn tref fechan yng ngorllewin Cymru. Mae'n benderfynol o roi bywyd gwell a dechrau newydd i'w mab.

"Mae Alys yn arwres gyfoes, yn llinach arwresau hanesyddol fel Gwenllian a Buddug," meddai cynhyrchydd y gyfres, Paul Jones. "Yn wahanol i Con Passionate a oedd yn pwysleisio breuder dynion, yn y gyfres hon, mae Siwan wedi mynd i mewn i fywydau merched sy'n cael dylanwad ar yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas."


Aneirin Hughes

Yr actores 24 oed o Rydaman, Sara Lloyd Gregory, sy'n chwarae rhan Alys. Crëwyd y rhan yn arbennig ar ei chyfer gan Siwan Jones. "Wy'n ei hystyried hi'n anrhydedd fy mod wedi cael y cyfle i chwarae'r brif ran mewn cyfres ddrama gan Siwan," meddai Sara. "Mae 'na falans llwyr yn ei sgwennu hi. Mae'r dwys a'r doniol yma, ynghyd â straeon a chymeriadau cryf. Mae darllen un o'i sgriptiau hi fel camu i mewn i lyfr. Mae ei chyfarwyddiadau hi mor fanwl, mi wyt ti'n adnabod y cymeriadau yn dda o'r cychwyn cyntaf. Mae hi'n hynod o graff.

"Wy'n hoff iawn o Alys. Wy'n lico ei bod hi mor gryf. A bod 'na reswm y tu ôl i bopeth mae'n ei wneud. Dyw hi ddim yn berson drwg."

Ymysg yr actorion eraill a welir yn y gyfres mae Aneirin Hughes (Trefeurig), William Thomas, Gillian Elisa, Shelley Rees, Ifan Huw Dafydd, Rhys ap William a Kate Jarman.

Mae'n rhaid i Sara hefyd gyd-actio â llygod mawr, a pharot sy'n rhegi.

"Doedd gen i ddim problem gyda'r llygod mawr, ond mi ges i fwy o drafferth efo'r parot," meddai Sara gyda gwên. "Roedd o'n bihafio'n dda gyda'r dynion yn y cast, ond mae'n amlwg nad yw e'n hoffi merched! Mae ei agwedd, felly, yn debyg i landlord Alys, Mr Toms, (Aneirin Hughes) sy'n datgan fod merched wedi sbaddu'r dref y mae'n rhan ohoni."

**Alys**
Nos Sul 23 Ionawr 21.00, S4C
Isdeitlau Cymraeg a Saesneg
Hefyd nos Iau 27 Ionawr 22.00, S4C
Gwefan: s4c.co.uk/alys
Ar alw: s4c.co.uk/clic
Cynhyrchiad Teledu Apollo, rhan o grŵp Boomerang, ar gyfer S4C

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANAETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

## COLOFN MRS JONES

Y mae cenhedloedd eraill, meddir, yn ein gwawdio ni ym Mhrydain am fod bob amser mor barod i drafod y tywydd. Ond pa ryfedd ein bod ni pan yw hi yn eira dwfn un munud ac yn tresio bwrw hen wragedd a ffyn y munud nesaf? Rhewi neu foddi ydi yr unig ddewis ar gael inni, am wn i.

A'r pwnc arall llosg, wrth gwrs, ydi y briodas frenhinol fawr a ni chredais erioed y gwelwn y dydd pan y dywedwn fod gennyf biti dros y frenhines a'i theulu...ond daeth y dydd. Y mae disgwyl iddynt ddarparu priodas sydd yn adlewyrchu balchder Prydain ac yn ystyried teimladau pobl sydd yn eu teimlo eu hunain dan warchae ariannol yr un pryd. Sbloet heb gost ydi'r gair ond hyd yn hyn, mae pob penderfyniad wnaed wedi codi gwrychyn rhywun.


Y camgymeriad cyntaf oedd defnyddio modrwy dyweddïo Diana. Mae hyn yn od oherwydd er gwaethaf cydnabod rhinweddau Diana'r fam, ni allai neb ei galw yn na phatrwm o ffyddlondeb i'w gŵr nag i'r sefydliad a gynrychiolai. Er ei bod yn ferch i iarll, fe ymagweddai yn aml mewn ffordd a beryglai'r frenhiniaeth ac eto, ei modrwy hi a ddefnyddiwyd - ac ar lefel pobl gyffredin fel chi a fi, ai yw hyn yn beth iach? Onid yw pob modrwy dyweddïo i fod yn symbol unigryw o gariad y ddau sydd yn dyweddïo? A beidio nad ydi defnyddio modrwy ail law braidd yn gybyddlyd?

Yr ail gamgymeriad yn fy marn i yw disodli'r goets, mewn car yr â Catherine i'w phriodas, nid yw'n cael rhwysg y coets tan ar ôl y seremoni. Diau fod hyn yn ddiogelach ond ai teg ei thrin yn wahanol i bob priodasferch frenhinol arall? Ac os mater o ddiogelwch yw, paham defnyddio coets i unrhyw un o gwbl? Wrth gwrs, mae car yn rhatach ac yn llai rhwysgfawr a dyna paham y defnyddir un, priodas grand rad yw'r delfryd wedi'r cwbl.... Ond a yw'r cyniliad wneir yn ddigon i warantu'r newid?

Sail yr holl beth yw ceisio rhoi'r argraff mai priodas normal pobl ifanc gwbl gyffredin yw hon ond y drwg yw, nid dyna yw. Dyma briodas etifedd, etifedd coron Lloegr, yn ei hanfod ni all hon fod yn briodas normal fel ein priodasau ni a waeth heb a cheisio ein perswadio o hynny trwy ddweud pethau megis mai dim ond rhyw ddau gant fydd yn y parti gydar'r nos. Waeth iddyn nhw dderbyn hynny a gwario fel y mynnent - yn enwedig gan mai arian y teuluoedd eu hunain a werir.

Yn yr un modd gyda chartref y ddau. Ni fydd ganddynt na gweision na morynion, mae'n debyg. Choelia i fawr. A phwy yn ei iawn bwyll sydd yn mynd i gredu nad oes ganddynt rhywun yn llnau, o leiaf. Ond dyma le lle na fedrant ennill ym marn y cyhoedd,os oes ganddynt staff, mae nhw yn fi fawr a mae'r dyddiau hynny drosodd.

Efallai yn wir fod dyddiau y staff niferus i wneud popeth gan gynnwys rhedeg baddonau wedi diflannu, mae'n wir dweud ein bod ni yn rhy barod i fod eisiau gweld y teulu brenhinol yn bihafio fel ni a'n bod yn rhy barod i'w droi'n deulu normal fel teulu drws nesaf. Ond nid dyna yw ac nid dyna fydd, dyma deulu sydd i fod yn cynrychioli Prydain ac sydd i fod, felly, i drefnu seremonïau a sbloet i'n difyrru ac i godi statws ac y mae, felly, yn afraid ac yn anheg gofyn iddynt newid eu harferion. Prioded y ddau gyda hynny o rwysg posibl a gobeithio y pery'r briodas ac y bydd y ddau yn hapus. A na, does dim o'i le hyd yn oed i genedlaetholwr fel fi ddymuno yn dda i'r ddau ohonynt.



## TYMOR HWYLIOG "OS MÊTS"

Balch ydym fod Efan Williams wedi ymdaflu i'w swydd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid yng Ngogledd Ceredigion ac eisoes wedi cynnal sesiwn hwyliog gydag aelodau "Os Mêts" yn Neuadd Rhydypennau nos Fercher Hydref 6ed 2010.

Yna ar Dachwedd 30ain bu criw dan arweiniad Y Fnsau Falyri Jenkins, Ruth Jên a Helen Jones yn ymarfer ar gyfer canu carolau ac yn darparu cardiau Nadolig ar gyfer eu dosbarthu ymhlith trigolion Cartref Tregerddan ac Afallen Deg pan oedd aelodau'n ymuno dan arweiniad Y Fns Falyri Jenkins ar Ragfyr 15eg. Cafwyd cefnogaeth dda oddi wrth garedigion "Os Mêts" a chafwyd eitemau gan Driawd Pres - Gwern Penri ac Iestyn a Ffion Evans - a chyflwynwyd unawdau gan Efan Williams

Oherwydd yr eira rhaid fu gohirio'r canu carolau o flaen Siop y Pethe brynhawn ddydd Gwener Rhagfyr 17eg a drefnwyd gan Efan Williams ar gyfer ieuenctid y cylch cyfan. Y bwriad oedd i gyfrannu nid yn unig at naws Nadoligaidd yn Aberystwyth ond hefyd i helpu i gasglu arian at fudiadau dyngarol. Daw cyfle eto bid siŵr.

Edrychwn ymlaen at weithgareddau amrywiol yn ystod Tymor y Gwanwyn dan arweiniad Efan.

NODER: Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor Gweithredol "Os Mêts" Nos Fercher Mawrth 23ain 2011



# MID WALES TRAVEL

**512 Ynys-las - Aberystwyth**
**Llun i Sadwrn, ac eithrio Gwyliau Banc**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penrhyn-coch | 0737 | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Aberystwyth | --- | 0814 | 0914 | 1014 | 1114 | 1214 | 1314 | 1414 | 1514 | 1614 | 1714 |
| Bow Street | 0745 | 0824 | 0924 | 1024 | 1124 | 1224 | 1324 | 1424 | 1524 | 1624 | 1724 |
| Heol Aberwennol | 0755 | 0835 | 0935 | 1035 | 1135 | 1235 | 1335 | 1435 | 1535 | 1635 | 1735 |
| Y Borth | 0800 | 0839 | 0939 | 1039 | 1139 | 1239 | 1339 | 1439 | 1539 | 1639 | 1739 |
| Tro Ynys-las | 0809 | 0843 | 0943 | 1042 | 1142 | 1242 | 1342 | 1442 | 1542 | 1642 | 1742 |
| | | | | | | | | | | | |
| Tro Ynys-las | 0815 | 0844 | 0944 | 1044 | 1144 | 1244 | 1344 | 1444 | 1544 | 1644 | 1744 |
| Y Borth | 0820 | 0848 | 0948 | 1048 | 1148 | 1248 | 1348 | 1448 | 1548 | 1648 | 1748 |
| Heol Aberwennol | 0823 | 0852 | 0952 | 1052 | 1152 | 1252 | 1352 | 1452 | 1552 | 1652 | 1752 |
| Bow Street | 0834 | 0903 | 1003 | 1103 | 1203 | 1303 | 1403 | 1503 | 1603 | 1703 | 1803 |
| Aberystwyth | 0844 | 0913 | 1013 | 1113 | 1213 | 1313 | 1413 | 1513 | 1613 | 1713 | 1813 |

**525 Aberystwyth — Llanidloes**
**Llun - Sadwrn, ac eithrio Gwyliau Banc**

**R** = yn rhedeg yma ar gais
**ns** = Dim ar ddydd Sadwrn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | 0630 | 1025 | 1425 | 1625 | 1740 |
| Llanbadarn | 0635 | 1030 | 1430 | 1630 | 1745 |
| Stâd Ddiwydiannol Glanyrafon | --- | 1032 | 1432 ns | --- | --- |
| Capel Bangor | 0643 | 1038 | 1438 | 1638 | 1753 |
| Ponterwyd, | 0656 | 1051 | 1451 | 1651 | 1806 |
| Ponterwyd, Penlon | --- | --- | R | R | --- |
| Llangurig | 0721 | 1116 | --- | --- | 1831 |
| Cwmbelan | 0726 | 1121 | --- | --- | 1836 |
| Llanidloes | 0730 | 1126 | --- | --- | 1841 |
| | | | | | |
| Llanidloes | 0732 | 1131 | --- | --- | 1845 |
| Cwmbelan | 0737 | 1136 | --- | --- | 1850 |
| Llangurig | 0742 | 1141 | --- | --- | 1855 |
| Ponterwyd, Penlon | --- | 1206 | --- | --- | --- |
| Ponterwyd | 0807 | 1207 | 1452 | 1652 | 1920 |
| Capel Bangor | 0822 | 1222 | 1507 | 1707 | 1935 |
| Stâd Ddiwydiannol Glanyrafon | --- | 1228 | --- | --- | --- |
| Llanbadarn | 0830 | 1230 | 1515 | 1715 | 1943 |
| Ysgol Penweddig | 0835 | --- | --- | --- | --- |
| Aberystwyth | 0840 | 1235 | 1520 | 1720 | 1951 |

**526 Penrhyn-coch — Aberystwyth - Morrisons**
**Llun-Sadwrn, ac eithrio Gwyliau Banc**

**s-1** = 1 munud yn gynharach ar ddydd Sadwrn
**s-2** = 2 munud yn gynharach ar ddydd Sadwrn
**R** = yn rhedeg yma ar gais ffôn
**ns** = Dim ar ddyddiau Sadwrn

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-bont Rhydybeddau | --- | 0755 (R) | --- | --- | 1055 (R) | --- | --- | 1355 (R) | --- | --- | --- | 1803 (R) | --- |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Penrhyn-coch | 0710 | 0800 | 0910 | 1000 | 1100 | 1200 | 1300 | 1400 | 1445 | 1600 | 1700 | 1810 | --- |
| Capel Dewi | 0717 | 0807 | 0917 | 1014 | 1107 | 1207 | 1307 | 1407 | 1452 | 1607 | 1707 | 1817 | --- |
| Capel Bangor | --- | --- | 0922 | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Stâd Ddl Glanyrafon . | --- | 0813 | --- | --- | 1113 | --- | 1313 | --- | 1458 ns | 1613 ns | 1711 ns | --- | --- |
| Llanbadarn | 0723 | 0815 | 0927 | 1020 | 1115 | 1213 | 1315 | 1413 | 1500 s-2 | 1615 s-2 | 1715 s-2 | 1823 | --- |
| Aberystwyth Cyrr. | 0728 | 0822 | 0932 | 1027 | 1122 | 1220 | 1322 | 1420 | 1507 s-2 | 1622 s-2 | 1722 s-2 | 1828 | --- |
| Aberystwyth Gad. | --- | 0823 | --- | 1028 | 1122 | 1221 | 1323 ns | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Cynulliad Cymru | --- | 0826 | --- | 1031 | 1125 | 1224 | 1326 ns | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Morrisons | --- | 0828 | --- | 1032 | 1127 | 1226 | 1328 ns | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Morrisons | --- | 0830 | --- | --- | 1128 | 1228 | 1318 ns | --- | --- | 1633 ns | --- | --- | --- |
| Welsh Assembly | --- | 0832 | --- | --- | 1130 | 1230 | 1320 ns | --- | --- | 1635 ns | --- | --- | --- |
| Aberystwyth Cyrr. | --- | 0835 | --- | --- | 1133 | 1233 | 1323 ns | --- | --- | 1638 ns | --- | --- | --- |
| Aberystwyth Gad. | 0730 | 0845 | 0935 | 1030 | 1135 | 1235 | 1325 | 1425 | 1525 | 1640 | 1740 | 1830 | 1955 |
| Llanbadarn | 0735 | 0850 | 0940 | 1035 | 1140 | 1240 | 1330 | 1430 | 1530 | 1645 | 1745 | 1835 | 2000 |
| Stâd Dd Glanyrafon | 0737 | 0852 | --- | --- | --- | 1242 | --- | --- | 1532 ns | --- | 1747 ns | --- | --- |
| Capel Bangor | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | 2005 |
| Capel Dewi | 0743 | 0858 | 0947 | 1042 | 1147 | 1248 | 1337 | 1437 | 1538 s-1 | 1652 | 1753 s-1 | 1842 | 2010 |
| Penrhyn-coch | 0749 | 0904 | 0953 | 1048 | 1153 | 1254 | 1343 | 1443 | 1544 s-1 | 1658 | 1759 s-1 | 1848 | 2015 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Pen-bont Rhydybeddau | 0753 (R) | --- | --- | 1053 (R) | --- | --- | 1348 (R) | --- | --- | --- | 1803 (R) | --- | --- |

**BRYNHYFRYD GARAGE**
**PENRHYNCOCH, ABERYSTWYTH, CEREDIGION SY23 3EH**
**Ffôn: 01970 828288 Ffacs: 01970 828940**

Hoffem, fel cwmni, ddiolch yn fawr i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth ac am fod mor ffyddlon i ni fel cwmni. Hoffem dynnu eu sylw hefyd i'r taflenni amser newydd hyn ddaeth i rym yn ddiweddar. Mae gwasanaeth bellach pob awr ( yn lle pob dwy awr) i Ynys-las trwy Bow Street, Llandre a'r Borth.

MEMBER OF THE FEDERATION OF SMALL BUSINESSES

# YSGOL PENRHYN-COCH



Disgyblion yr ysgol a fu'n cymeryd rhan yn Sioe Ffasiynnau Shwldimwl yn ddiweddar.

### Sioe Ffasiynau

Ar ddiwedd mis Tachwedd, trefnwyd noson arbennig yn yr ysgol i godi arian i'n coffrau. Cynhaliwyd Sioe Ffasiynau o dan arweiniad cwmni Shwldimwl, Llanboidy. Cafwyd tua 30 o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan i ddangos dillad y cwmni. Nid dim ond y disgyblion a fu yn mwynhau, wrth i staff yr ysgol gerdded i lawr y llwyfan. Yn ogystal a'r sioe, cafwyd lluniaeth o dan drefniant y Gymdeithas Rieni. Tynnwyd raffl fawr yr ysgol yn ystod y noson. Llwyddwyd i godi swm arbennig o arian i goffrau'r ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac i Owain o gwmni Shwldimwl am wneud yr holl drefniadau yn hwyliog.

### Sioe Nadolig

Unwaith eto eleni, perfformiwyd dwy sioe gan ddisgyblion yr ysgol. Ar brynhawn dydd Mercher, cafwyd perfformiad agored i bobl y pentref cyn y perfformiadau ar y nos Fercher a'r nos Iau. Teitl sioe y Cyfnod Sylfaen oedd "Annest yr Angel" a gwelwyd nifer o gymeriadau diddorol yn rhoi cymorth i Annest. Teitl sioe yr Adran Iau oedd "Pantolig" a chafwyd perfformiadau arbennig gan y disgyblion. Gwelwyd dau fachgen wedi gwisgo i fyny fel dwy chwaer hyll, Sinderela, y llys fam, postmon, Mair a Joseff, corachod ac wrth gwrs y tri gŵr "Doeth!!" Cafwyd neuadd orlawn ar y ddwy noson a llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion am eu holl waith arbennig.

### Cristingl

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar brynhawn olaf y tymor yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion wrthi yn gwneud un cristingl y teulu a chafwyd cyfle i gynnau y rhain yn ystod y gwasanaeth. Gwelwyd y staff yn cymryd rhannau blaenllaw yn y seremoni. Diolch i'r Parchedig Ronald Williams am ei anerchiad.

### Morrisons

I godi arian i goffrau yr ysgol, gwelwyd disgyblion a rhieni'r ysgol yn archfarchnad Morrisons yn pacio bagiau. Treuliwyd pedair awr yno a chasglwyd swm anhygoel. Gwelwyd Côr yr ysgol yn canu ym mhrif fynedfa'r siop. Diolch i'r disgyblion a'r rhieni a ddaeth i bagio'r bagiau ac i aelodau'r côr am ganu mor arbennig.

### Cinio'r Gymuned

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Gymuned ym mis Rhagfyr. Braf oedd cael cyflwyno cor yr ysgol i'w diddanu. Aeth holl aelodau'r cor i neuadd yr Eglwys a chafwyd hanner awr o adloniant. Diolch iddynt am y cyfle i fynd a'r côr allan i'r gymuned ac am eu rhodd hael ar ddiwedd y prynhawn.

### Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Iau olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Mrs Watkins a Miss Evans. Cafwyd gwledd o fwyd a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi.

### Sinema

Yn dilyn yr holl ymdrech ar gyfer y Sioe, cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio'r ffilm Shrek Forever After.

### Cawl a Chân

Mae'r ysgol yn trefnu noson o Gawl a Chân Gŵyl Ddewi ar nos Wener y 4ydd o Fawrth. Fel rhan o'r noson bydd yr ysgol a Chôr Ger-y-lli yn diddanu'r gynulleidfa. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at yr ysgol a Chôr Ger-y-lli Bydd tocynnau ar werth o'r ysgol yn fuan. Gweler posteri am rhagor o wybodaeth.

### Sioe Aeaf Llanelwedd

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am ennill gwobrau yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd.

Coginio Dyn Eira
1af Sian Jenkins
2il Llion Edwards
3ydd Florrie Lithgow

Coginio Coeden
1af Seren Jenkins

Creu Sion Corn
2il Elain Donnelly

Creu Cracyr
3ydd Seren Bedder

Diolch i bawb a fu wrthi yn ddiwyd yn rhoi cymorth i'r disgyblion.

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£6 y sesiwn . £5 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
Clwb Gwyliau
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.
£18 y diwrnod plentyn cyntaf
£16 y diwrnod ail plentyn
Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.
£9 plentyn cyntaf . £8 ail plentyn
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

## Gwasanaeth Nadolig

Hyfryd oedd medru cynnal ein gwasanaeth Nadolig eleni yn neuadd yr ysgol oherwydd problemau gwresogi gyda'r eglwys leol. Cafwyd noson hwylus efo pob plentyn yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd. Roedd dosbarth y babanod yn edrych yn arbennig yn eu gwisgoedd lliwgar a'r adran iau yn smart iawn yn eu tinsel wrth iddynt lefaru stori'r geni. Roedd y neuadd yn llawn o rieni a ffrindiau'r ysgol, diolch iddynt am eu cefnogaeth.

## Yr Urdd

Bu'r plant yn brysur iawn cyn y Nadolig yn gwneud gwahanol ariffactau allan o glai. Diolch yn fawr i Mrs Williamson - Evans am ei holl gymorth. Roedd pob un yn werth eu gweld. Cynhaliwyd parti Nadolig Yr Urdd ar nos Lun 13eg Rhagfyr. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw. Cafwyd gêmau a llawer o ganu cyn y wledd o ddanteithion.

## Clwb coginio

Daeth Mrs Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont i mewn i'r ysgol cyn y Nadolig i ddangos i'r plant sut i wneud 'mins peis'. Cafwyd noson o goginio prysur ac yna gwerthwyd y cynnyrch ar ôl ysgol i godi arian i Latch.

## Arad Goch

Aeth dosbarth y babanod ar drip i weld sioe Nadolig Arad Goch sef 'Croeso i Hosan a Stori'. Roeddent yn ganmoladwy iawn o'r sioe a daeth pob plentyn adref yn wên o glust i glust.

## Cinio blasus

Cafodd yr ysgol i gyd bryd o fwyd arbennig ar yr 16eg. Roedd Wendy, Sian a Chath wedi paratoi cinio Nadolig hyfryd i ni. Diolch yn fawr iddynt am eu holl waith drwy'r flwyddyn.Cafwyd amser da efo pawb yn hwyl y Nadolig wrth iddynt ddarllen y jôcs o'r cracers.

## Ffarwelio

Bu'n amser ffarwelio gyda Chris King a Rachel Swift, myfyrwyr o Goleg Ceredigion a fu yn gweithio gyda ni dros y tymor. Diolch yn fawr iddynt am eu cymorth a phob lwc iddynt yn y dyfodol.

## Carolau

Aeth criw o ddisgyblion o'r ysgol un bore oer cyn y Nadolig i Siop Morrisons i ddiddanu'r cwsmeriaid efo carolau Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau a chasglwyd swm anrhydeddus tuag at yr ysgol.

## Croesawu

Hyfryd oedd croesawu aelod newydd i'r ysgol y tymor yma, sef Arthur Stockford. Rydym yn gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith. Hefyd bydd Mr Rhys Evans yn dechrau gyda ni yn yr ysgol pob bore a chroeso mawr iddo ef.


## Bag2thefuture

Rydyn yn casglu dillad er mwyn codi arian ar gyfer yr ysgol. Mae gennym fagiau pwrpasol ar gyfer gwneud hyn, felly os am helpu gofynnwch i'r ysgol a llenwch y bagiau a dewch a nhw yn ôl erbyn 19eg o Ionawr.


Plant y babanod yn canu'n hapus yn y gwasanaeth


Plant yr Urdd yn mwynhau y danteithion


Disgyblion yr ysgol yn diddanu ymwelwyr â Morrisons


Croeso mawr i Arthur Stockford


Mrs Morgan yn coginio 'mins peis' gyda'r plant

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Cinio Nadolig

Ar yr 4ydd o Ragfyr cynhaliwyd cinio Nadolig yr henoed yn yr ysgol. Bu Mrs Meinir Fleming a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 65 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol. Ar yr 20fed o Ragfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y wledd, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth ac, wrth gwrs, am y bwyd blasus meant yn ei gynhyrchu drwy'r flwyddyn.

## Sioe Nadolig

Cynhaliwyd ein Sioe Nadolig eleni yn Neuadd Rhydypennau ar y 14eg a'r 15eg o Ragfyr. I agor y noson, perfformiodd blwyddyn 1 a 2 'Noson y Gêm Fawr'; sioe yn cyfuno stori Bethlehem gyda thîm pêl-droed Bethlehem Unedig. Yn dilyn hyn, perfformiodd blynyddoedd 3,4,5 a 6 'Pantoliog'; cyfuniad o stori Sinderela â Stori'r Geni. Roedd y neuadd yn llawn ar y ddwy noson a chafwyd gwledd o ganu, actio a dawnsio. Hoffai'r ysgol ddiolch i Bwyllgor y Neuadd am y cydweithrediad a'r cymorth yn ystod yr ymarferiadau ac yn ystod y ddwy noson. Cafwyd cyngerdd ardderchog hefyd gan Yr Unedau Meithrin a Derbyn. Cynhaliwyd y gyngerdd hon yn neuadd yr ysgol ar y 14eg a'r 15fed o Ragfyr. O ganlyniad i'r perfformiadau hyn, codwyd £1,117 tuag at gronfa'r ysgol. Diolch i bawb am eu hymroddiad yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau..

## Band

Fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynnwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

## Ffarwelio

Yn anffodus bu'n rhaid i'r ysgol ffarwelio â Mrs Delyth Huws. Bu Mrs Huws yn Athrawes Llwyth Gwaith yn yr ysgol ers 2004, ac fe ddysgodd pob dosbarth o'r meithrin i flwyddyn 6 yn wythnosol. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Mrs Huws am ei gwasanaeth a'i hymroddiad dros y blynyddoedd a phob hwyl iddi yn ei swydd newydd yn Llyfrgell y dre'.

## Siom

Trefnwyd parti Nadolig blynyddol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol ar yr 20fed o Ragfyr, ond yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r noson oherwydd y tywydd. Yn hytrach, cynhaliwyd noson ar y 13eg o Ionawr i ddathlu'r flwyddyn newydd - Noson 'Hen Galan'. Yn ystod y noson cafwyd disgo, gwin twym, mins peis a llawer mwy!

## Clwb Cant y Cant

Yn ystod tymor yr hydref, roedd 21 o blant â record cant y cant o ran presenoldeb yn yr ysgol. Llongyfarchiadau iddynt!

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Clwb cant y cant-heb golli diwrnod yn ystod Tymor yr Hydref.



Aaron Glover a Ffion Haf yn ffarwelio gyda Mrs Delyth Huws.



Sioe Nadolig Blwyddyn 1 a 2.



Sioe Nadolig y Meithrin a'r Derbyn.



Y Plant yn mwynhau cinio Nadolig.

# YSGOL PEN-LLWYN

### Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd y gyngerdd Nadolig eleni yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor ar nos Fawrth, Rhagfyr 14eg, 2010. Y Goeden Nadolig oedd sioe dosbarth 1 ac edrychai pob plentyn fel addurn bach tlws iawn. Gwnaeth pob un ei ran yn ardderchog. Drama'r Pwdin 'Dolig gyflwynodd dosbarth 2. Drama llawn hwyl a sbort ar ddiwrnod Nadolig. Roedd y gynulleidfa i'w weld wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn.

### Ffair Nadolig

Cafwyd ffair Nadolig lewyrchus iawn wedi ei drefnu gan rieni blwyddyn 6 ar nos Fercher, Rhagfyr 8fed. Trefnwyd llawer o stondinau a bu plant blwyddyn 5 a 6 yn helpu ar y noson. Pinacl y noson oedd ymweliad gan Siôn Corn. Hoffem fel ysgol ddiolch i'r rhieni am eu gwaith caled a'u cefnogaeth.

### Ffarwelio â Mrs G. Williams

Ar ddiwedd tymor yr Hydref bu rhaid ffarwelio â Mrs Gweneira Williams, athrawes dosbarth 2. Carwn ddiolch iddi am ei gwasanaeth diflino i'r ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Er ein bod yn drist iawn i'w gweld yn mynd o'r ysgol rydym yn dymuno'r gorau iddi ar ei hymddeoliad.



Ffarwelio â Mrs Gweneira Williams



Ffair Nadolig



Sioe dosbarth 1 'Y Goeden Nadolig'

### Prynhawn Agored

Trefnwyd prynhawn agored ar ddydd Iau, Rhagfyr 16eg er mwyn i'r rhieni a darpar rieni i ymweld â'r ysgol yn ystod y dydd. Roedd yn gyfle iddynt weld y plant wrth eu gwaith ac i gael sgwrs gyda'r staff a'r rhieni eraill dros gwpaned o de neu goffi.

### Ymweliad gan Nyrs Angharad

Daeth Nyrs Angharad atom ar fore Dydd Gwener, Rhagfyr 10fed i gynnal sesiwn ar lendid dwylo. Cawsom nifer o weithgareddau i ddysgu ar sut a phryd dylsen ni olchi dwylo Roedd fideo doniol gyda chymeriadau hyfryd, llawn cyngor a gwybodaeth i wylio.

### Plant Newydd

Fe garwn groesawu Megan Lewis, Courtney Chandler a Rhys Barron i ysgol Pen-llwyn. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein mysg.

### Croeso i Miss Fflur Jones

Rydym yn estyn croeso cynnes i'n hathrawes newydd Miss Fflur Jones. Rwy'n siwr y bydd hi eto yn ymgarftrefu yn gyflym iawn yn ysgol Pen-llwyn.

### Arwerthiant

Ar nos Wener, Rhagfyr 17eg cynhaliwyd Arwerthiant Mawr yn Nhafarn y Druid, Goginan pan werthwyd llawer o eitemau diddorol. Ar ôl yr arwerthiant bu band lleol yn cynnal adloniant. Diolch yn fawr i Cathryn Morgan am drefnu'r noson ac i Andrew Davies am ei helpu. Diolch hefyd i bawb oedd wedi cyfrannu at y noson.

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# TASG Y TINCER


Owain Ifans

Dyma fi o'r diwedd yn cael cyfle i ddweud Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chi. Ddaru chi fwynhau'r Nadolig? A beth am yr eira? Mi sylwais fod nifer ohonoch wedi gwneud dynion eira o bob lliw a llun ar ddechrau'r gwyliau. Da iawn chi. Roedd 'na gasgliad reit dda o sgarffiau a hetiau ar sawl un.

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o Siôn Corn gyda'i sach o deganau y mis diwethaf. Dyma'r enwau: Rhodri Jones, Tŷ'r Banc, Bont-goch; Owain Ifans, 18 Garreg Wen, Bow Street; Sion Lewis Davies, Hendy, Llangeitho; Luned Jones, 2 Tanygeulan, Capel Bangor; Alexis Phillips, 1 Cae'r Odyn, Bow Street.

Ti Owain sy'n cael y wobr y tro hwn, er bod lluniau pawb yn ardderchog, wir. Hoffais fenig gwyrdd llachar Sion Corn!

Wel, mi glywes i fod neb llai na Dewi Pws, Bardd Plant Cymru, wedi ymweld â rhai o ysgolion yr ardal yn ddiweddar! Fuoch chi'n gwrando arno? Rwy'n hoff iawn ohono, ac mae'n gwneud i mi chwerthin. Tybed a wnaethoch chi gael cyfle i sgwennu rhyw bennill neu ddau yn ei gwmni? Mae croeso i chi anfon eich gwaith at *Y Tincer*, i'w gyhoeddi ar dudalen y *Tasg*. Beth amdani?!

Beth oedd eich hoff anrheg Nadolig? Gafodd rai ohonoch gêm Wii tybed, neu gyfrifiadur newydd, neu iiPad? Faint ohonoch chi gafodd sglefrfwrdd, neu feic? Mae'n siŵr bod nifer fawr ohonoch chi, fel fi, wedi cael llyfrau i'w darllen. Tybed a ddaru chi gael un o lyfrau Rala Rwdins a'i ffrindiau? Rwy wrth fy modd yn darllen hanes cymeriadau Gwlad y Rwla. Pa un yw eich hoff gymeriad chi? Llyfr arall sydd i'w weld yn y siopau a'r llyfrgelloedd nawr yw *Peppa'n Mynd i Wersylla*. Falle i chi gael copi yn eich hosan Nadolig! Rwy'n hoff iawn o Peppa a George. Ydech chi'n hoffi cyfres Peppa ar *Cyw*? Carwyn y ci yw fy ffefryn i o blith y cymeriadau i gyd! Y mis hwn, beth am liwio'r llun o Peppa'n mynd am dro ar ei beic? Os mai beic ddaru chi gael gan Sion Corn eleni, mwynhewch y crwydro a'r rasio, ond cofiwch wisgo'ch helmed pob tro.

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn 1af Chwefror i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig. Teledu. Te a choffi.
Wi Fi am ddim. Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 335 | IONAWR 2011